# CYNGOR CYMUNED LLANSANTFFRAED
# LLANSANTFFRAED COMMUNITY COUNCIL

## Cofnodion o Gyfarfod Blynyddol y Cyngor a gynhaliwyd am 7.30pm yn Neuadd Bentref Llanon ar nos Fawrth, 6ed Mai 2025

Yn bresennol: Cadeirydd: y Cynghorydd Andrew Phillips
Y Cynghorwyr Keith Henson, Claire Humphreys, Kathleen jones, Dennis Morgan, Gwenno Piette, Aled Roberts a Martine Robson.
Clerc: Mr Denfer Morgan

**470 Ethol Cadeirydd**
Cynigiwyd ac eiliwyd yn ffurfiol a **PHENDERFYNWYD** yn unfrydol ailethol y Cynghorydd Andrew Phillips yn Gadeirydd y Cyngor ar gyfer Blwyddyn Bwrdeistrefol 2025-26.

**471 Datganiad o Dderbyn Swydd y Cadeirydd**
Arwyddodd y Cynghorydd Phillips y Datganiad o Dderbyn Swydd y Cadeirydd.

**472 Ymddiheuriadau**
Ymddiheurodd y Cynghorydd Hywel Llŷr Jenkins am fethu a bod yn bresennol yn y cyfarfod.

**473 Ethol Is-gadeirydd**
Cynigiwyd ac eiliwyd yn ffurfiol a **PHENDERFYNWYD** yn unfrydol ailethol y Cynghorydd Hywel Llyr Jenkins yn Is-gadeirydd y Cyngor ar gyfer Blwyddyn Bwrdeistrefol 2025-26.

**474 Datganiad o Dderbyn Swydd yr Is-gadeirydd**
Fe ofynnir i'r Cynghorydd Jenkins arwyddo'r Datganiad o Dderbyn Swydd yr Is-gadeirydd.

## Minutes of the Annual Meeting of the Council held at the Llanon Village Hall at 7.30pm on Tuesday, 6th May 2025

Present: Chairman: Councillor Andrew Phillips
Councillors Keith Henson, Claire Humphreys, Kathleen Jones, Dennis Morgan, Gwenno Piette, Aled Roberts and Martine Robson.
Clerk: Mr Denfer Morgan

**470 Election of Chairman**
It was proposed and duly seconded and unanimously **RESOLVED** that Councillor Andrew Phillips be re-elected Chairman of the Council for the 2025-2026 Municipal Year.

**471 Declaration of Acceptance of Office of Chairman**
Councillor Phillips signed the Declaration of Acceptance of Office of Chairman.

**472 Apologies**
Councillor Hywel Llŷr Jenkins apologised for his inability to attend the meeting.

**473 Election of Vice-Chairman**
It was proposed and duly seconded and unanimously **RESOLVED** that Councillor Hywel Llyr Jenkins be re-elected Vice-Chairman of the Council for the 2025-2026 Municipal Year.
.

**474 Declaration of Acceptance of Office of Vice-Chairman**
Councillor Jenkins would be asked to sign the Declaration of Acceptance of Office of Vice-Chairman.

**475 Penodi Archwilydd Mewnol**
**PENDERFYNWYD** penodi Mr Elfyn Jones yn Archwilydd Mewnol ar gyfer Cyfrifon Blynyddol 2024-25.

**476 Penodi Arolygwyr Llwybrau**
**PENDERFYNWYD** penodi'r Cynghorwyr Claire Humphreys a Dennis Morgan yn arolygwyr llwybrau.

**477 Cynrychiolaeth ar Gyrff Allanol**
**PENDERFYNWYD** penodi'r cynrychiolwyr canlynol:
Pwyllgor Neuadd Bentref a Chae Chwarae Llanon (1) – y Cynghorydd Gwenno Piette
Pwyllgor Ardal Ceredigion Un Llais Cymru (1) – y Cynghorydd Hywel Llŷr Jenkins
Pwyllgor Pwll Nofio Aberaeron a'r Cylch (1) – Mr Phil Tomlins
Corff Llywodraethol Ysgol Gynradd Gymunedol Llannon (1) – y Cynghorydd Hywel Llŷr Jenkins.

**478 Cynllun Taliadau Aelodau ar gyfer 2025-26**
Rhoddwyd ystyriaeth i argymhellion Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol dyddiedig Chwefror 2025 a **PHENDERFYNWYD** mabwysiadu'r Cynllun canlynol ar gyfer 2025-26:

*Lwfansau a gynhwysir yn y Cynllun*
Costau Gofal
Taliad Costau Ychwanegol / Taliad Penodol am Nwyddau Traul
Costau Teithio a Chynhaliaeth
Arhosiad Dros Nos

*Lwfansau na chynhwysir yn y Cynllun*
Uwch Rôl
Maer neu Gadeirydd
Dirprwy Faer neu Is-gadeirydd
Colled Ariannol
Lwfans presenoldeb

Daeth y cyfarfod i ben am 7:45 y.h.

**475 Appointment of Internal Auditor**
It was **RESOLVED** to appoint Mr Elfyn Jones as Internal Auditor for the 2024-25 Annual Accounts.

**476 Nomination of Footpath Inspectors**
It was **RESOLVED** that Councillors Claire Humphreys and Dennis Morgan be appointed the footpath inspectors.

**477 Representation on Outside Bodies**
It was **RESOLVED** to appoint the following representatives:
Llanon Village Hall and Playing Fields Committee (1) – Councillor Gwenno Piette
Ceredigion Area Committee One Voice Wales (1) – Councillor Hywel Llŷr Jenkins
Aberaeron & District Swimming Pool and Recreation Committee (1) – Mr Phil Tomlins
Governing Body of Llannon Community Primary School (1) – Councilllor Hywel Llŷr Jenkins.

**478 Members Payments Scheme for 2025-26**
Consideration was given to the recommendations of the Independent Remuneration Panel for Wales dated February 2025 and it was **RESOLVED** to adopt the following Scheme for 2025-26:

*Allowances Included in the Scheme*
Care costs
Extra Costs Payment / Set Payment for Consumables
Travel and Subsistence
Overnight Stay

*Allowances Not Included in the Scheme*
Senior Role
Mayor or Chair
Deputy Mayor or Vice Chair
Financial Loss
Attendance Allowance

The meeting concluded at 7:45 p.m.

# CYNGOR CYMUNED LLANSANTFFRAED COMMUNITY COUNCIL

**Cofnodion o Gyfarfod o Gyngor Cymuned Llansantffraed a gynhaliwyd am 7:45 pm ar nos Fawrth, 6ed Mai 2025 yn Neuadd Bentref Llanon**

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Andrew Phillips (Cadeirydd) Y Cynghorwyr Keith Henson, Claire Humphries, Kathleen Jones, Dennis Morgan, Gwenno Piette, Aled Roberts a Martine Robson.
Mr Denfer Morgan (Clerc)

**479 Ymddiheuriadau**
Ymddiheurodd y Cynghorydd Hywel Llŷr Jenkins am fethu bod yn bresennol yn y cyfarfod.

**480 Personol**
Mynegodd yr Aelodau eu cydymdeimliad gyda'r Cynghorydd Keith Henson ar ôl i'w fam ddarfod yn ddiweddar.

**481 Heddlu Dyfed-Powys**
Croesawyd PCSO Charlotte Carter i'r cyfarfod a darparwyd y gwybodaeth canlynol ganddi hi.
Nid oedd yna dystion I'r digwyddiad lleol pan gafodd ffenestr tŷ gwyliau ei dorri, navc i graffiti yn cael ei sgriblan ar y gysgodfa.
Bu cynnydd ym mhresenoldeb yr heddlu yn Llanon oherwydd sawl ffactor, gan gynnwys plant ar goll a dyn yn gofyn am arian oddi wrth drigolion.
Wrth orffen, dywedodd Charlotte taw hwn oedd y cyfarfod olaf y byddai'n mynychu fel PCSO gan y byddai'n dechrau hyfforddi fel heddwas.
Y Rhingyll Chris Tipper fyddai'n gwasanaethu'r gymuned yn ei lle.
Diolchwyd i Charlotte am ei gwasanaeth cydwybodol ac amhrisiadwy yn ystod ei chyfnod fel PCSO.

**482 Cofnodion o'r Cyfarfod a gynhaliwyd**

**Minutes of a Meeting of Llansantffraed Community Council held at 7:45 pm on Tuesday, 6th May 2025 at the Llanon Village Hall**

**Present:** Councillor Andrew Phillips (Chairman) Councillors Keith Henson, Claire Humphries, Kathleen Jones, Dennis Morgan, Gwenno Piette, Aled Roberts and Martine Robson.
Mr Denfer Morgan (Clerk)

**479 Apologies**
Councillor Hywel Llŷr Jenkins apologised for his inability to attend the meeting.

**480 Personal**
Members expressed their sympathies with Councillor Keith Henson following the recent passing of his mother.

**481 Dyfed-Powys Police**
PCSO Charlotte Cater was welcomed to the meeting and she provided the following information.
There were no witnesses to a recent incident where the window of a holiday home had been broken; or to graffiti being scrawled on the hut.
There had been an increase in the police presence in Llanon due to several factors, including missing children and a man requesting money from residents.
In concluding, Charlotte stated that this was the last meeting she would be attending as PCSO as she was starting training to be a police constable.
Sergeant Chris Tipper would be covering the community in her place.
Charlotte was thanked for her conscientious and invaluable service to the community during her period as a PCSO.

**482 Minutes of the Meeting held on 1st**

**ar 1af Ebrill 2025**
**PENDERFYNWYD** cadarnhau cofnodion o'r Cyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 1af Ebrill 2025.

**April 2025**
It was **RESOLVED** to confirm the Minutes of the Meeting of the Council held on 1st April 2025.

**483 Archwiliad Eiddo**
Roedd y Cynghorydd Andrew Phillips wedi gwneud yr archwiliad yr wythnos flaenorol. Cytunwyd rhoi cadwolyn ar bren y gysgodfa ac i ofyn i Emyr Harries am bris.

**483 Property Inspection**
Councillor Andrew Phillips stated that he had undertaken the inspection the previous week. It was agreed to provide a preservative on the wood of the hut and to ask Emyr Harries for a price.

**484 Materion Ariannol**
**PENDERFYNWYD** talu'r anfonebau canlynol:
*Pwyllgor Neuadd a Chae Chwarae Llanon:*
Toriadau'r Cae Mawrth ac Ebrill (50%) - £150
Defnydd o'r Neuadd ar gyfer cyfarfodydd y Cyngor (Mawrth ac Ebrill) - £63
Defnydd o'r Neuadd ar gyfer Sesiwn y Gwasanaeth Ieuenctid - £33

Samsaws (Clirio a chymryd I ffwrdd tyfiant yn ardal y Waun / paratoi tir ar gyfer y goeden nadolig) - £816
Archwilio Cymru (Archwiliad Llawn 2022-23) - £623
Archwilio Cymru (Archwiliad 2023-24) - £200

**484 Finance Matters**
It was **RESOLVED** to pay the following invoices:
*Llanon Village Hall and Playing Field Committee;*
March and April Field Cuts (50%) - £150
Use of Hall for Council Meeting (March and April) - £63
Use of Hall for Youth Services Session - £33

Samsaws (Clearing and disposal of growth at the Waun area / preparing ground for the Christmas tree) - £816
Audit Wales (2022-23 Full Audit) - £623
Audit Wales (2023-24 Audit) - £200

**485 Materion Cynllunio**
Rhoddwyd ystyriaeth i gais cynllunio A250226 *2 Sutherlands, Stryd-yr-ysgol, Llanon. Air source heat pump installation.*

**Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad.

**485 Planning Matters**
Consideration was given to planning application A250226 *2 Sutherlands, Stryd-yr-ysgol, Llanon. Air source heat pump installation.*

**Decision:** No objection.

**486 Toiledau'r Waun**
Adroddodd y Clerc fod y cytundeb lefel gwasanaeth (CLG) ar gyfer glanhau toiledau wedi cael ei dderbyn a chafwyd eglurhad nad oedd yna cymal a oedd yn mynnu fod y Cyngor yn cwrdd gyda chostau uwch na'r swm a ddarparwyd yn y costau a ddarparwyd gyda'r CLG.

**PENDERFYNWYD** arwyddo'r CLG fel a gyflwynwyd.

**486 Waun Toilets**
The Clerk reported that the service level agreement (SLA) for the cleaning of toilets had now been received and it had been clarified that there was no clause requiring the Council to finance any costs over and above the sum providing in the costings supplied with the SLA.

It was **RESOLVED** to sign the SLA as presented.

**487 Y Lle Chwarae**
Dywedodd y Clerc, gyda chyfrifon 2024-25 yn cael eu terfynnu, roedd yna gyllid digonol i fwrw mlaen gyda'r cynllun a **PHENDERFYNWYD** gosod archeb gyda'r tendrwr llwyddiannus, sef Urban Recreation, ar gyfer cyflenwi twnel, siglen a phaneli yn y swm o £12,500.

**487 Playground**
The Clerk advised that, with the 2024-25 accounts being finalised, there were sufficient funds to proceed with the scheme and it was **RESOLVED** to place an order with the successful tenderer, namely Urban Recreation for the supply of a tunnel, swing and play panels in the sum of £12,500.

**488 Cyflenwad trydan i Storfa'r Waun**
Nodwyd fod MPAN wedi'i dderbyn oddi wrth y Grid Genedlaethol a chytunwyd bwrw 'mlaen i drefnu darparu cyflenwad ar gyfer y storfa.

**488 Waun Storeroom Electricity Supply**
It was noted that the MPAN had now been received from National Grid and it was agreed to proceed to arrange for a supply to be provided to the storeroom.

**489 Cyrtiau Tenis**

a) Dywedodd y Clerc fod trefniadau mewn llaw i ymweld ag Ardal Chwaraeon Aml-ddefnydd ym Mhenrhyncoch er mwyn rhoi cyfle i'r Aelodau weld y cymhwyster. Dywedodd taw'r camau cyntaf i'w gwneud mewn perthynas â gwneud cais posib am gyllid oedd i lenwi ffurflen Datganiad o Ddiddordeb a fyddai'n cynnwys yr angen i gael cefnogaeth oddi wrth cyrff lleol am gymhwyster o'r fath hwn.

b) **PENDERFYNWYD** cytuno derbyn y pris a dderbyniwyd ar gyfer uwchraddio'r marciwr llinellau gwyn ac i'w archebu.

**489 Tennis Courts**

a) The Clerk stated that arrangements were being made to visit the newly provided MUGA at Penrhyncoch to enable Members to view the facility. He stated that the first steps to be undertaken with regard to making a possible application for funding was to complete an Expression of Interest form which included the need to obtain support from local organisations for such a facility.

b) It was **RESOLVED** to accept the quote for the upgrading of the white line marker and that it be ordered.

**490 Traeth y Morfa**
Rhoddwyd ystryriaeth i'r pris o tua £1,000 a dderbyniwyd ar gyfer clirio'r traeth o'r cerrig a olchwyd yno. Fe atgoffodd y Clerc yr Aelodau nad oedd yr ardal ym mherchnogaeth y Cyngor hwn ac nid oedd unrhyw reidrwydd i'w gadw'n agored i bobl gael mynediad iddo fe. Roedd yn argymell felly nad oedd y nifer o bobl allai elwa o'r gwaith yn cyfiawnhau gwario swm o'r fath hwn.

**490 Morfa Beach**
Consideration was given to the price of £1,000 received for clearing the beach of stones that had been washed there. The Clerk reminded Members that the area was not owned by this Council and that there was no requirement for it to be kept accessible for people to use it. He was therefore recommending that it the number of people who could benefit from the work would justify spending a sum of this kind.

**491 Adroddiad y Cynghorydd Sir Keith**

**491 Report of County Councillor Keith**

**Henson**
Adroddodd y Cynghorydd Henson fel a ganlyn:

- disgwylid ateb Asiantaeth y Priffyrdd ynghylch gosod deffibrilydd yng nghysgodfa bws Cylch Peris a chysylltwyd gyda Barcud parthed gosod yr un i'w osod ar wal Hafan yr Efail
- fe fyddai Fan y Gwasanaeth Ieuenctid yn dychwelyd yn ystod gwyliau hanner tymor yr ysgolion
- fe darmacwyd darn o ffordd yn Nebo.

**Henson**
Councillor Henson reported as follows:

- the response of the Trunk Road Authority in respect of the placing of a defibrillator at the Cylch Peris bus-stop was awaited and Barcud was being contacted in respect of the one to be fixed to the wall of Hafan yr Efail
- the Youth Service Fan would be returning during the school half term holiday
- a length of road had been tarmacked in Nebo.

**492 Unrhyw Fater Arall**
Cytunwyd y canlynol:

a) awdurdodi'r Clerc i achwilio'r gwerth o newid cyfrif banc y Cyngor i'r Unity Trust Bank
b) anfon llythyr yn llongyfarch Adran Iau Clwb Peldroed Llanon ar eu llwyddiant ac estyn diolchiadau i'r hyfforddwyr am eu gwaith cywybodol.

**492 Any Other Matter**
The following was agreed:

a) to authorise the Clerk to investigate whether it is worth moving the Council's bank account to the Unity trust Bank
b) to send a letter congratulating Llanon Football Club Junior Section on their success and thanking the coaches for their conscientious work.

Daeth y cyfarfod i ben am 8:50pm

The meeting concluded at 8:50pm